# Cynllun Busnes 2012-2015
# Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

31 Mai 2012

*Byddwn yn diweddaru'r cynllun hwn bob blwyddyn*

Cynnwys:


| | | |
|---|---|---|
| Adran A: | Blaenoriaethau'r Glymblaid | 2 |
| Adran B: | Y Cynllun Diwygio Strwythurol | 4 |
| Adran C: | Gwariant yr Adran | 23 |
| Adran D: | Tryloywder | 27 |

# A) Blaenoriaethau'r Glymblaid

1. Gwybodaeth ac Arloesi – Hybu prifysgolion a gwaith ymchwil rhagorol ac ehangu arloesedd mewn busnes
2. Sgiliau – Meithrin sylfaen sgiliau sy'n gallu cystadlu ar lwyfan ryngwladol a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd sy'n galluogi unigolion i wireddu eu potensial
3. Mentergarwch – Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau
4. Masnach a buddsoddi- Sbarduno allforio a mewnfuddsoddi
5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

## Cyfrifoldebau adrannol

Mae'r dudalen hon yn disgrifio pwy yn yr Adran sy'n arwain ar ei phrif gyfrifoldebau, gan gynnwys y Blaenoriaethau y mae'r Glymblaid wedi eu pennu ar ein cyfer.

**Ysgrifennydd Parhaol**: Martin Donnelly
**Prif Gynghorydd Gwyddonol**: Yr Athro John Perkins

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwybodaeth ac Arloesi** £11.8bn, 261 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol: Syr Adrian Smith | **Gwasanaethau Cyfreithiol Busnes a Sgiliau** £4.3bn, 664 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol: Rachel Sandby-Thomas | **Masnach a Buddsoddi yn y DU** £0.04bn (gweinyddol), 550 o staff Prif Weithredwr: Nick Baird | **Marchnadoedd a Thwf Lleol** £0.4bn, 586 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol: Bernadette Kelly | **Gweithrediaeth Cyfranddalwyr** £1.2bn, 100 o staff Prif Weithredwr: Stephen Lovegrove | **Strategaeth, Dadansoddi a Rheoleiddio Gwell** £0.02bn, 214 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol: Tera Allas | **Pobl, Cyfathrebu ac Effeithiolrwydd Corfforaethol** £0.03bn, 230 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro: Joanna Donaldson | **Cyllid a Masnach** £0.1bn, 274 o staff Cyfarwyddwr Cyffredinol: Howard Orme |
| **Blaenoriaethau o ran Adfywiad Strwythurol** | 1. Gwybodaeth ac Arloesi | 2. Sgiliau<br>3. Mentergarwch | 4. Masnach | 5. Marchnadoedd<br>4. Masnach | 3. Mentergarwch | 5. Marchnadoedd | | |
| **Prif Gyfrifoldebau Eraill** | Addysg Uwch<br>Gwyddoniaeth<br>Arloesi | Addysg Bellach<br>Sgiliau<br>Sectorau Busnes<br>Gwasanaethau Cyfreithiol | Masnach<br>Buddsoddi<br>Amddiffyn a Diogelwch<br>Allforio | Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth<br>Y Farchnad Lafur<br>Ewrop a'r polisi masnach<br>Yr amgylchedd busnes<br>Twf Lleol | Y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post<br>Arferion Corfforaethol a Chyllid<br>Seiber-ddiogelwch | Economeg a Dadansoddi<br>Strategaeth<br>Twf<br>Gwell Rheoleiddio,<br>Dylunio a Chyflawni | AD, Cyfathrebu, Newid ac Effeithiolrwydd Corfforaethol | Cyllid<br>Materion Masnachol<br>Archwilio Mewnol<br>Gwasanaethau Corfforaethol<br>Rhaglenni |

Fel yr Adran dros Dwf, mae BIS yn chwarae rhan amlwg ac ymarferol wrth yrru twf cynaliadwy sy'n gytbwys ac i bawb – a hynny ledled y wlad a rhwng gwahanol sectorau'r economi.

Mae BIS a Swyddfa'r Cabinet yn cydweithio i arwain yr Her Biwrocratiaeth ar draws y Llywodraeth er mwyn lleihau a diwygio'r stoc o reoliadau sydd ar y llyfr statud. Mae BIS yn gyfrifol hefyd am weithredu'r newidiadau i'r rheoliadau y mae'r Adran yn gyfrifol amdanynt.

Mae Masnach a Buddsoddi yn gweithredu ar draws dwy Adran: sef BIS ac FCO.

BIS sy'n gyfrifol am Adran y Llywodraeth dros Wyddoniaeth.

Mae gan BIS rwydwaith o gyrff partner sy'n gyfrifol am 73 y cant o'n gwariant, ac sy'n hanfodol i gyflawni ein hamcanion.

# B) Y Cynllun Diwygio Strwythurol

Mae'r Adran hon yn disgrifio'r camau allweddol y bydd yr adran yn eu cymryd i weithredu'r Blaenoriaethau y mae'r Glymblaid wedi pennu ar ei chyfer. Caiff adroddiad gweithredu ei gyhoeddi ar lein, er mwyn dangos ein cynnydd yn hyn o beth.

Mae manylion unrhyw gamau ychwanegol, gan gynnwys ein cyfraniad at agendâu trawsadrannol y Llywodraeth, fel yr Adolygiad o Dwf, i'w cael yn Atodiad A.

Mae'r holl ymrwymiadau a dyddiadau cyflawni mewn perthynas â deddfwriaeth a chraffu cyn deddfu yn amodol ar amserlenni seneddol.

## 1.Gwybodaeth ac Arloesi – Hybu prifysgolion a gwaith ymchwil rhagorol a chynyddu arloesedd mewn busnes

*Yn arwain: Syr Adrian Smith, Gwybodaeth ac Arloesi*

| **CAMAU** | | | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | | **Diwygio addysg uwch er mwyn creu system gynaliadwy o safon ryngwladol, sy'n agored i bobl o bob cefndir, a hynny gan ddisgwyl cyfraniadau ariannol mwy gan y bobl hynny sy'n gallu fforddio eu talu** | | |
| | i. | Rhoi Rhaglen Ysgoloriaethau Cenedlaethol newydd ar waith er mwyn gwobrwyo myfyrwyr sy'n cychwyn mewn addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2012/13 | Wedi cychwyn | Hyd 2012 |
| | | | | |
| **1.2** | | **Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddarpar-fyfyrwyr am y gwahanol sefydliadau addysg uwch** | | |
| | i. | Sicrhau bod gwybodaeth am yr holl faterion allweddol mewn perthynas â phob prifysgol ar gael i fyfyrwyr, mae hyn yn cynnwys boddhad myfyrwyr a thynged graddedigion o wahanol gyrsiau a phrifysgolion ar ôl cwblhau eu haddysg | Wedi cychwyn | Medi 2012 |
| | | | | |
| **1.3** | | **Sicrhau bod buddsoddiad ar wyddoniaeth ac ymchwil yn canolbwyntio ar ragoriaeth yn y dyfodol** | | |
| | i. | Paratoi a chynnal rhaglen beilot ar gyfer system geisiadau'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Ymchwil (REF) | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | ii. | Datblygu system geisiadau'r REF a'i hagor i ymatebion gan sefydliadau | Ion 2013 | Tach 2013 |
| | iii. | Cynnal asesiad o geisiadau'r REF | Ion 2014 | Rhag 2014 |

## 1.Gwybodaeth ac Arloesi – Hybu prifysgolion a gwaith ymchwil rhagorol a chynyddu arloesedd mewn busnes

*Yn arwain: Syr Adrian Smith, Gwybodaeth ac Arloesi*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **1.4** | **Darparu gwerth £100 miliwn o gyllid cyfalaf er mwyn galluogi prifysgolion i ddenu cyllid cyd-fuddsoddiad preifat neu elusennol ar gyfer partneriaethau ymchwil arwyddocaol tymor hir** | | |
| i. | Cyhoeddi dull o ymdrin â dyraniadau cystadleuol | Gorff 2012 | Medi 2012 |
| ii. | Dyfarnu'r projectau cyntaf | Maw 2013 | Maw 2013 |
| | | | |
| **1.5** | **Hwyluso mwy o fuddsoddiad preifat mewn gwaith ymchwil a helpu i fasnacheiddio technoleg ac ymchwil trwy greu canolfannau rhagoriaeth ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg a chysylltiadau cadarnach rhwng prifysgolion a diwydiant** | | |
| i. | Gweithredu rhwydwaith gweithredol o ganolfannau technoleg ac arloesi Catapult ym maes Therapïau Cellol, yr Economi Digidol Cysylltiedig, Dinasoedd y Dyfodol, Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch, Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, Defnyddiau Lloeren a Systemau Trafnidiaeth | Wedi cychwyn | Ebr 2013 |
| ii. | Cynorthwyo'r Bwrdd Strategaeth Technoleg (TSB) i ddatblygu manyleb ar gyfer Sefydliad Data Agored a'i sefydlu | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| iii. | Adeiladu a sefydlu Sefydliad Francis Crick trwy bartneriaeth unigryw rhwng y Cyngor Ymchwil Meddygol, Ymchwil i Ganser y DU, Ymddiriedolaeth Wellcome a thri o brifysgolion mwyaf blaenllaw Llundain (UCL, ICL, KCL). Ei nod fydd deall y fioleg sydd wrth wraidd iechyd dynol, a dod o hyd i ffyrdd i atal a thrin yr afiechydon mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar bobl heddiw | Wedi cychwyn | Ion 2016 |
| iv. | Sefydlu a chynnal y Catalydd Biofeddygol £180m ar y cyd rhwng MRC/TSB er mwyn helpu i gyflawni gwaith ymchwil a datblygu academaidd a masnachol mewn ffordd ddi-dor, effeithiol ac effeithlon | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| | | | |
| **1.6** | **Atgyfnerthu'r gefnogaeth y mae fframwaith eiddo deallusol (IP) y DU yn ei rhoi i fentergarwch, twf economaidd ac arloesedd cymdeithasol a masnachol** | | |
| i. | Ymgynghori ar y newidiadau i'r ddeddfwriaeth hawlfraint y mae Adolygiad Hargreaves yn eu cynnig a chyhoeddi penderfyniadau'r Llywodraeth arnynt | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| | | | |

| 1.Gwybodaeth ac Arloesi – Hybu prifysgolion a gwaith ymchwil rhagorol a chynyddu arloesedd mewn busnes<br>*Yn arwain: Syr Adrian Smith, Gwybodaeth ac Arloesi* | | |
|---|---|---|
| **CAMAU** | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
| **1.7 Gwella Ymdriniaeth Ryngwladol y DU o Eiddo Deallusol (IP) er lles economi'r DU, er mwyn gwella'r system eiddo deallusol ryngwladol ac er mwyn hwyluso arloesedd rhyngwladol** | | |
| i. Sefydlu rhwydwaith o Attachés IP mewn swyddi FCO mewn economïau allweddol er mwyn hyrwyddo buddiannau busnes a buddiannau polisi'r DU a darparu man i fusnesau'r DU a chanddynt broblemau sy'n gysylltiedig ag IP droi ato | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| ii. Dylanwadu ar drafodaethau er mwyn dod i gytundeb ar gynigion Patent yr UE a'r Llys Patentau yn unol â blaenoriaethau'r DU | Wedi cychwyn | Maw 2015 |

## 2. Sgiliau - Meithrin sylfaen sgiliau sy'n gallu cystadlu ar lwyfan ryngwladol a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd sy'n galluogi unigolion i wireddu eu potensial

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **2.1** | **Ehangu a gwella ansawdd y rhaglen prentisiaethau** | | |
| i. | Darparu cyllid a hyfforddiant er mwyn helpu i greu 75,000 yn rhagor o brentisiaethau ar gyfer oedolion erbyn 2014-15, sy'n cyd-fynd â lefel y cyllid a etifeddwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| ii. | Ariannu 40,000 yn rhagor o brentisiaethau ar gyfer oedolion gan ganolbwyntio ar bobl ifanc ddi-waith, a 10,000 yn rhagor o lefydd ar brentisiaethau uwch | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| iii. | Sicrhau bod yr holl brentisiaethau newydd yn gofyn bod y prentisiaid sydd wedi methu â chyrraedd L2 yn Saesneg a mathemateg yn gweithio tuag at hyn, mewn cydweithrediad â'r DfE | Wedi cychwyn | Medi 2012 |
| iv. | Gweithio gyda'r DfE i gyflwyno cynllun newydd o gymelldaliadau i gymell cyflogwyr bychain i gyflogi prentisiaid ifanc newydd | Wedi cychwyn | Ebr 2013 |
| v. | Gweithio gyda'r DfE i ddod o hyd i ffyrdd o wneud prentisiaethau'n fwy hygyrch i Fusnesau Bach a Chanolig a'u rhoi ar waith (gan gynnwys lleihau biwrocratiaeth a phrosesau recriwtio cyflymach) | Wedi cychwyn | Ebr 2013 |
| | | | |
| **2.2** | **Cyflwyno system newydd o fenthyciadau ar gyfer myfyrwyr addysg bellach i gyd-fynd â'r diwygiadau i ariannu addysg uwch, yn y disgwyl y bydd yr oedolion hynny sy'n elwa fwyaf ar eu hyfforddiant yn cyfrannu at y costau os gallant fforddio gwneud hynny** | | |
| i. | Llunio rheoliadau lleyg i ganiatáu ar gyfer cyflwyno benthyciadau Addysg Bellach (AB) | Gorff 2012 | Gorff 2012 |
| ii. | Y dysgwyr i gychwyn ar y cyrsiau a ariennir trwy fenthyciadau AB | Medi 2013 | Medi 2013 |
| | | | |
| **2.3** | **Gweithredu rownd newydd o'r Gronfa Twf ac Arloesedd ar gyfer projectau sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu sgiliau, ac sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan gyflogwyr** | | |
| i. | Gweithredu'r rownd newydd o Gyllid Twf ac Arloesedd | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| | | | |

## 2. Sgiliau - Meithrin sylfaen sgiliau sy'n gallu cystadlu ar lwyfan ryngwladol a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd sy'n galluogi unigolion i wireddu eu potensial

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| **CAMAU** | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|
| **2.4 Diwygio'r Sgiliau Sylfaenol mewn Saesneg a Mathemateg** | | |
| i. Cynnal arbrawf gyda'r darparwyr i ganfod sut y gellir asesu a mesur yr enillion o ran sgiliau mewn Saesneg a Mathemateg er mwyn defnyddio hyn fel sail ariannu i gymell darparwyr i gyflawni'r enillion gorau posibl o ran sgiliau ar gyfer eu dysgwyr | Medi 2012 | Medi 2013 |
| | | |
| **2.5 Trwy'r Cynllun Peilot Perchnogaeth Cyflogwyr ar Sgiliau, pwyso a mesur dull newydd o ymdrin â chyllid ar gyfer sgiliau galwedigaethol trwy gyfeirio buddsoddiad cyhoeddus mewn sgiliau at gyflogwyr er mwyn galluogi iddynt brynu hyfforddiant yn uniongyrchol** | | |
| i. Datblygu Prosbectws sy'n disgrifio pwrpas y cynllun peilot a'r meini prawf y caiff ceisiadau eu hasesu yn eu herbyn, a sicrhau y cyflwynir ceisiadau perthnasol, o ansawdd uchel | Wedi cychwyn | Meh 2012 |
| ii. Gwerthuso pa mor effeithiol yw cam cyntaf y cynllun peilot ac, yn amodol ar lwyddiant y cam cyntaf, lansio'r ail gam | Medi 2012 | Ebr 2013 |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **3.1** | **Gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer y sectorau allweddol er mwyn mwyafu cyfleoedd busnes newydd a sicrhau twf mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau, gan gynnwys yr economi carbon isel** | | |
| | i. Datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer y sectorau allweddol er mwyn mwyafu'r cyfleoedd busnes newydd a'r twf mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau | Wedi cychwyn | Ion 2013 |
| | ii. Datblygu a lansio arddangosfa flaenllaw ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu i gyd-fynd â gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Bydd hyn yn agored i gynulleidfa o'r DU a gweddill y byd sy'n ymweld â Llundain ar gyfer Gemau 2012 | Wedi cychwyn | Medi 2012 |
| | | | |
| **3.2** | **Creu un Gwasanaeth Cynghori ar gyfer Gweithgynhyrchu (MAS) yn Lloegr i gymryd lle'r wyth gwasanaeth rhanbarthol oedd yn bodoli o'r blaen. Bydd hyn yn sicrhau darbodaeth ac yn gwella cysondeb wrth gyflwyno gwasanaethau** | | |
| | i. Cyflawni adenillion ar fuddsoddiad BIS sy'n fwy na'r cyfartaledd MAS ranbarthol flaenorol (er enghraifft, mwy na £6 o GYC am bob £1 y mae BIS yn ei fuddsoddi) | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | ii. Gwireddu cynnydd mewn gweithgynhyrchu sy'n codi o'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) a'r swyddi y gellir eu cysylltu yn uniongyrchol ag ymyrraeth MAS | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |
| **3.3** | **Sefydlu cynllun iawndal ar gyfer busnesau allweddol â defnydd dwys o drydan er mwyn helpu i fantoli cost anuniongyrchol pris gwaelodol carbon a System Masnachu Allyriadau yr UE:** | | |
| | i. Cyhoeddi pecyn a chanllawiau | Maw 2013 | Maw 2013 |
| | ii. Cyflwyno hysbysiad ffurfiol am gymorth gwladwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd | Gorff 2013 | Gorff 2013 |
| | | | |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **3.4** | **Gweithio ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod PCLlau mewn sefyllfa i gyflwyno eu hamcanion ar gyfer twf economaidd yn lleol, a hynny'n benodol trwy:** | | |
| | i. Gweithio gyda'r ACLIL er mwyn sicrhau bod PCLlau yn chwarae rhan gyflawn wrth wireddu Ardaloedd Menter, sy'n gyson â'u cynlluniau gweithredu | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | ii. Gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a'r ACLIL i daro Bargeinion Dinas gyda'r 8 dinas craidd a sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaeth BIS sydd wedi ei theilwra at anghenion pob Dinas unigol | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| | iii. Cyflawni cerrig milltir perthnasol ar gyfer ymrwymiadau penodedig BIS yn y bargeinion dinas sy'n codi o'r cynlluniau gweithredu a gymeradwyir gan Swyddfa'r Cabinet, BIS a'r ddinas o dan sylw | Meh 2012 | Maw 2015 |
| | | | |
| **3.5** | **Gweithio gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn sefydlu Cronfa Twf Rhanbarthol i hybu Mentergarwch yn y sector preifat a chynorthwyo'r llefydd sy'n dibynnu ar y sector cyhoeddus i bontio'r ffordd i dwf cynaliadwy trwy law'r sector preifat** | | |
| | i. Cwblhau rownd o geisiadau pellach ar gyfer y Gronfa Twf Rhanbarthol, lle caiff cyrff preifat a phartneriaethau cyhoeddus a phreifat (gan gynnwys Partneriaethau Menter Lleol) wneud cais am gyllid i fuddsoddi mewn twf trwy law'r sector preifat | Wedi cychwyn | Meh 2012 |
| | ii. Cynnal cyfres o achlysuron Rhanbarthol er mwyn annog darpar-ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau am gyllid o'r gronfa | Wedi cychwyn | Meh 2012 |
| | iii. Cyhoeddi cynigion amodol i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn Rownd 3 o'r Gronfa Twf Rhanbarthol | Tach 2012 | Tach 2012 |
| | iv. Rhoi diweddariadau chwarterol ar gynnydd y projectau llwyddiannus sydd wedi llofnodi contractau terfynol | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | | | |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| CAMAU | | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| **3.6** | **Helpu i wella llif credyd i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) hyfyw** | | | |
| | i. | Gweithio gyda'r Trysorlys er mwyn sicrhau bod cyfathrebu da mewn perthynas â'r Cynllun Gwarantu Benthyciadau Cenedlaethol a'r Bartneriaeth Cyllid Busnes | Wedi cychwyn | Ion 2015 |
| | ii. | Cyflawni elfennau cyrchu cyllid yr ymgyrch Busnes Ynoch Chi, a hynny'n benodol trwy hysbysebu'r offeryn Canfod Cyllid | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | iii. | Dyfarnu cyllid y Bartneriaeth Cyllid Busnes a glustnodwyd ar gyfer BIS i'r cynigion llwyddiannus ar gyfer £50m cyntaf y Bartneriaeth Cyllid Busnes (benthyciadau nad ydynt trwy fanciau) | Wedi cychwyn | Tach 2012 |
| | | | | |
| **3.7** | **Gwella strwythurau marchnadoedd dyledion amgen er mwyn ehangu cwmpas y dewisiadau ar gyfer cyllid allanol sy'n agored i bob busnes** | | | |
| | i. | Gweithio gyda'n partneriaid yn y busnes i weithredu ar argymhellion Adolygiad Breedon ar fenthyciadau nad ydynt trwy fanciau, gan gynnwys sut i alluogi sefydliadau sy'n buddsoddi i fuddsoddi mewn BBaChau), cynyddu nifer y buddsoddwyr lleoliad preifat, hybu taliadau a chyllid mwy prydlon ar gyfer cadwyni cyflenwi, a hwyluso arferion gwell wrth rannu gwybodaeth am gredyd | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | ii. | Cyhoeddi adroddiad ar gynnydd ar weithrediad Adolygiad Breedon | Tach 2012 | Tach 2012 |
| | | | | |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| **CAMAU** | | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|---|
| **3.8** | **Sicrhau taw'r DU yw un o'r gwledydd cyflymaf yn y byd i gychwyn busnes newydd, ac un o'r gwledydd hawsaf i sefydlu busnes bach ynddi, mewn cydweithrediad â Thŷ'r Cwmnïau a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi** | | |
| i. | Cyflwyno system newydd sy'n galluogi cwmnïau bychain i gyflogi staff, talu treth a chyflawni rhwymedigaethau rheoliadol eraill trwy un porth syml ar y rhyngrwyd | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| ii. | Hwyluso'r broses o sefydlu mathau newydd o fodelau busnes trwy gwblhau proses yr Her Biwrocratiaeth ar Fodelau Busnes Aflonyddgar | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| iii. | Cytuno ar gynllun busnes a fydd yn galluogi BIS ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth i roi ffrwyth yr ymarfer ar Fodelau Busnes Aflonyddgar ar waith | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| iv. | Cynnal cystadleuaeth i lansio cynllun peilot ar gyfer rhaglen o fenthyciadau Mentergarwch a fydd yn helpu pobl ifanc i sefydlu ac ehangu eu busnesau eu hunain, a phenodi sefydliadau i gyflawni'r cynllun peilot | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| | | | |
| **3.9** | **Rhesymoli gwybodaeth a chyngor i fusnesau a thargedu'r rhain yn well** | | |
| i. | Rheoli'r broses bontio o Businesslink i ddarpariaeth gwybodaeth a chyngor ar-lein newydd ar gyfer busnesau mewn un lle, mewn cydweithrediad â HMRC a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth | Wedi cychwyn | Ebr 2013 |
| ii. | Recriwtio a hyfforddi 15,000 o fentoriaid (5,000 ohonynt wedi eu hariannu gan Swyddfa Cydraddoldebau y Llywodraeth ) er mwyn ehangu'r ddarpariaeth fentora ar gyfer BBaCh | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | | | |
| **3.10** | **Creu diwylliant cadarnach o fentergarwch** | | |
| i. | Sefydlu cymdeithasau mentro ar gyfer myfyrwyr yn y rhan fwyaf o sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn Lloegr | Wedi cychwyn | Ebr 2015 |
| ii. | Cyflawni ymgyrch estynedig (Busnes Ynoch Chi) yn 2012 er mwyn magu hyder pobl mewn cychwyn busnesau ac ehangu cwmnïau sy'n bodoli eisoes, gan weithio ochr yn ochr â Rhif 10, Cychwyn Prydain a phartneriaid eraill o'r sector preifat | Wedi cychwyn | Ion 2013 |
| | | | |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws y gwahanol sectorau ac ar draws y rhanbarthau

*Yn arwain: Rachel Sandby-Thomas, Busnes, Sgiliau a'r Gyfraith*

| CAMAU | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|
| **3.11 Sefydlu canolfan ragoriaeth 'rithwir' ym maes aerodynameg yn y DU (gan gynnwys amrywiaeth o bobl o'r byd diwydiant, academia a'r llywodraeth)** | | |
| i. Comisiynu o leiaf un rhaglen YaD o bwys ym maes aerodynameg wedi ei ariannu ar y cyd gan y Llywodraeth a byd diwydiant, a hynny er mwyn gwneud y DU yn fwy cystadleuol ym maes aerodynameg | Wedi cychwyn | Maw 2013 |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi'r degawd hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws sectorau ac ar draws ranbarthau

*Yn arwain: Stephen Lovegrove, Cyfranddeiliad Gweithredol*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **3.12** | **Sefydlu rhaglen i wella ymateb y sector preifat i sialensiau seiberddiogelwch er mwyn cydategu agenda seiberddiogelwch y Llywodraeth** | | |
| i. | Sefydlu rhaglen i wella ymateb y sector preifat i sialensiau seiberddiogelwch | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |
| **3.13** | **Ceisio sicrhau chwistrelliad o gyfalaf preifat i'r Post Brenhinol er mwyn diogelu dyfodol y gwasanaeth post cynhwysol a sicrhau bod gan y Post Brenhinol a'i staff ddyfodol cynaliadwy. Ceisio lleihau'r risg parhaus i'r trethdalwyr a sicrhau bod staff y Post Brenhinol yn teimlo cysylltiad â thrawsnewidiad y busnes a'u bod yn gallu rhannu yn ei lwyddiannau yn y dyfodol** | | |
| i. | Sefydlu a rheoli'r trefniadau ar gyfer gweithrediad effeithiol ac effeithlon Cynllun Pensiwn Statudol y Post Brenhinol | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| ii. | Sylweddu'r mwyafrif o'r asedau a gafodd eu trosglwyddo i'r Llywodraeth yn rhan o ddatrysiad pensiwn y Post Brenhinol, yn amodol ar unrhyw werthiant asedau sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwyr | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| iii. | Trefnu gwerthiant cyfrannau'r Post Brenhinol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynllun cyfrannau i staff | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| | | | |
| **3.14** | **Helpu i sefydlu mesurau i gynnal Swyddfa'r Post a'i rhwydwaith genedlaethol o swyddfeydd post, gan gynnwys sicrhau bod modd i Swyddfeydd Post gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau** | | |
| i. | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, datblygu a gweithredu cynigion gyda'r nod o sicrhau cydberchnogaeth ar Swyddfa'r Post Cyf | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| ii. | Cynnal rhaglen drawsnewid a fydd yn moderneiddio 6,000 o ganghennau ar draws rhwydwaith o 11,500 a mwy o swyddfeydd post | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| | | | |

## 3. Mentergarwch - Rhoi hwb i fentergarwch gan droi'r degawd hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws sectorau ac ar draws ranbarthau

*Yn arwain: Stephen Lovegrove, Cyfranddeiliad Gweithredol*

| CAMAU | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|
| **3.15 Sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd er mwyn cynnal buddsoddiad preifat yn y seilwaith gwyrdd a thechnolegau ar gyfnod datblygedig** | | |
| i. Rhoi'r Banc Buddsoddi Gwyrdd ar waith | Medi 2012 | Medi 2012 |
| ii. Rhyddhau'r data blynyddol cyntaf am gronfeydd a maint buddsoddiadau'r Banc Buddsoddi Gwyrdd | Mai 2013 | Mai 2013 |

# 4. Masnach a buddsoddi – Sbarduno allforio a mewnfuddsoddi yn y DU

*Yn arwain: Nick Baird, Masnach a Buddsoddi yn y DU*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **4.1** | **Rhoi strategaeth newydd UKTI a chamau'r Cynllun Twf ar waith i hyrwyddo buddsoddiad ac allforio er mwyn helpu i greu economi mwy cytbwys** | | |
| i. | Cynyddu perfformiad UKTI mewn perthynas â mewnfuddsoddi, gan gynnwys trwy ddefnydd helaethach o daliadau yn seiliedig ar ganlyniadau a phartneriaethau'r sector preifat | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| ii. | Ymestyn cwmpas ac effaith y gwasanaethau cymorth i fasnach ar draws Ranbarthau Lloegr trwy osod contractau i gymell ein partneriaid o'r sector preifat sy'n eu darparu, a meithrin partneriaethau cadarnach â rhwydweithiau busnes lleol a chwmnïau cyfryngu | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| iii. | Cynyddu partneriaethau UKTI ac FCO â chyrff trawsluosi, gan gynnwys lansio mentrau cydweithredol newydd â Siambrau Masnach er mwyn ehangu eu cwmpas a'u heffaith, a chynnal Her Allforio Cenedlaethol y Prif Weinidog | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| iv. | Gwella perfformiad allforio busnesau canolig eu maint trwy gyflwyno pecyn penodedig o gymorth sy'n cynnwys gosod contractau i gymell y sector preifat yn hyn o beth | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| v. | Sbarduno gwelliannau sylweddol mewn boddhad cwsmeriaid, cysondeb o ran y ffordd y cyflawnir busnes a pherfformiad busnes trwy Benodiadau tramor, a hynny trwy roi Cytundebau Perfformiad newydd ar waith gyda Llysgenhadon | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| vi. | Hyrwyddo Strategaeth Gwyddorau Bywyd y Prif Weinidog a gwella perfformiad gweithgareddau hyrwyddo gwyddorau bywyd UKTI drwyddi draw | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| vii. | Cryfhau'r perthnasau strategol â chronfeydd cyfoeth sofren allweddol a sefydliadau byd-eang eraill, er mwyn denu buddsoddiad ar gyfer y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol a phrojectau adfywio pwysig eraill yn y DU | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| viii. | Gwella ansawdd cyflawniad a chanlyniadau teithiau masnach tramor trwy eu cynnal ar y cyd â phartneriaid busnes o'r sector preifat fel Conffederasiwn Diwydiant Prydain | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| ix. | Chwistrellu mwy o ddawn ac arbenigedd o'r sector preifat i garfan arwain uwch UKTI trwy geisio sicrhau bod o leiaf 50 y cant o'r Garfan Weithredol yn dod o'r byd busnes | Wedi cychwyn | Medi 2012 |

## 4. Masnach a buddsoddi – Sbarduno allforion a mewnfuddsoddi yn y DU

*Yn arwain: Bernadette Kelly, Marchnadoedd a Thwf Lleol*

| **CAMAU** | | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|---|
| **4.2** | **Gwella gweithrediad y farchnad sengl a chytundebau masnach yr UE er mwyn gwneud marchnadoedd tramor yn fwy hygyrch i fusnesau yn y DU** | | |
| i. | Rhyddfrydoli marchnadoedd Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau busnes trwy weithio gyda'n partneriaid yn yr UE i wireddu canlyniadau uchelgeisiol o ran glasbrint y Comisiwn Ewropeaidd i wella masnach yn yr UE (sef "Deddf y Farchnad Sengl") | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| ii. | Ei gwneud hi'n haws gwerthu nwyddau a gwasanaethau ar lein yn yr UE | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| iii. | Gwneud i fasnachu yn Ewrop weithio'n well i gwmnïau sy'n gwerthu eu cynnyrch ym marchnadoedd mawr yr UE trwy wella tryloywder, hwyluso'r prosesau ar gyfer datrys anghydfodau a gwella gorfodaeth | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| iv. | Cwblhau'r trafodaethau ar y Cytundeb Masnach Rydd (FTA) gydag India, Canada a'r gweledydd ASEAN eraill; cychwyn a datblygu trafodaethau â Japan; cychwyn y broses o sicrhau trafodaethau masnach ddwyochrog gadarn â'r Unol Daleithiau | Wedi cychwyn | Maw 2015 |
| v. | Ymgyrchu'n helaeth – ym Mrwsel ac â llywodraethau Aelod-wladwriaethau'r UE - ar ran ein strategaeth twf yn yr UE | Wedi cychwyn | Maw 2015 |

## 5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

*Yn arwain: Bernadette Kelly, Marchnadoedd a Thwf Lleol*

| **CAMAU** | | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|---|
| **5.1** | **Sicrhau bod gan y DU fframweithiau cystadlu o safon ryngwladol** | | |
| i. | Cyflwyno Mesur i ddiwygio'r fframwaith ar gyfer cystadleuaeth | Meh 2012 | Rhag 2013 |
| ii. | Annog yr UE i gymeradwyo marchnad sengl ddigidol er mwyn goresgyn y rhwystrau i e-fasnach a dosbarthiad electronig nwyddau i Ewrop, a hynny trwy wella'r mecanweithiau amgen er mwyn galluogi i fusnesau a'u cwsmeriaid ddatrys anghydfodau | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | | | |
| **5.2** | **Ymestyn yr hawl i wneud cais am gael gweithio mewn ffordd hyblyg a datblygu system newydd ar gyfer rhannu absenoldeb rheini** | | |
| i. | Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i elfennau gweithio hyblyg a rhannu absenoldeb rhieni yr ymgynghoriad ar Weithleoedd Modern | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |
| ii. | Cyhoeddi manylion am sut y bydd y system newydd o rannu absenoldeb rieni yn gweithio, a'i berthynas â'r ddarpariaeth o ran mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu, gan gynnwys cynigion ar gyfer gweinyddu'r system | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |
| **5.3** | **Rhoi diwygiadau i fframwaith cyfreithiau cyflogi BIS ar waith, gan weithio gydag Adrannau eraill i gynnal marchnad lafur sy'n deg, yn effeithiol ac yn effeithlon** | | |
| i. | Bwrw ymlaen â'r diwygiadau o ran datrys anghydfodau a'r system o dribiwnlysoedd cyflogaeth, ac ymestyn y cyfnod cymhwyso o ran diswyddo annheg o un flwyddyn i ddwy | Wedi cychwyn | Ebr 2013 |
| ii. | Cyflwyno cynigion deddfwriaethol er mwyn hwyluso cymodi cynnar drwy law'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chymrodeddu (ACAS), diwygio'r fformwla ar gyfer uwchraddio terfynau taliadau diswyddo a chyflwyno system o gosbau ariannol | Wedi cychwyn | Mai 2014 |
| iii. | Ymgynghori ar fesurau i wella hyder cyflogwyr mewn perthynas â rheoli perfformiad staff | Meh 2012 | Maw 2013 |
| iv. | Cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau'r Adolygiad o Hawliau, Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth yn y Gweithle (WRCER) ac ymgynghori ar feysydd allweddol ar gyfer newid, gan gynnwys diwygio'r ffordd y mae'r sector recriwtio yn cael ei reoleiddio | Wedi cychwyn | Tach 2012 |
| v. | Cyhoeddi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Gyfraith Cyflogaeth | Maw 2013 | Maw 2013 |
| vi. | Cyflwyno rheoliadau drafft i gyfuno corff presennol y rheoliadau ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i un set o reoliadau cyfun | Gorff 2012 | Ebr 2013 |

## 5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

*Yn arwain: Bernadette Kelly, Marchnadoedd a Thwf Lleol*

| **CAMAU** | | **I gychwyn** | **I'w gwblhau** |
|---|---|---|---|
| vii. | Galw am dystiolaeth ar ymdrin â diswyddiadau a diswyddiadau di-fai ag iawndal mewn perthynas â microfusnesau | Wedi cychwyn | Meh 2012 |
| **5.4** | **Sicrhau bod gan y DU fframweithiau llywodraethu corfforaethol o safon ryngwladol** | | |
| i. | Rhoi grym i reoliadau newydd ar ryddhau cwmnïau nad ydynt yn rhestredig rhag archwiliadau gorfodol ar gyfer cyfrifon is-gwmnïau, yn amodol ar y telerau a bennir yn y Bedwaredd Gyfarwyddeb a chanlyniad yr ymgynghoriad | Hyd 2012 | Hyd 2012 |
| ii. | Cytuno ar becyn o fesurau mewn perthynas â dadreoleiddio, a diwygiadau mewn perthynas â chwmnïau o dan raglen her biwrocratiaeth, a bwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r mesurau hyn ar waith | Gorff 2012 | Ebr 2013 |
| iii. | Rhoi'r gyfarwyddeb micros ar waith er mwyn symleiddio cyfrifon ar gyfer y cwmnïau lleiaf | Gorff 2012 | Hyd 2013 |
| iv. | Symleiddio'r drefn er mwyn galluogi cwmnïau i ddefnyddio eu hasedau i ddiogelu cyllid | Wedi cychwyn | Hyd 2013 |
| v. | Cyflawni Adolygiad Graeme Nuttall ac uwchgynhadledd haf y Dirprwy Brif Weinidog ar gyfrannau ar gyfer gweithwyr | Wedi cychwyn | Awst 2012 |
| vi. | Paratoi ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Graeme Nuttall ar gyfrannau ar gyfer gweithwyr | Medi 2012 | Rhag 2012 |
| vii. | Rhoi cynigion y Llywodraeth mewn perthynas â chyflogau cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ar waith trwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth | Wedi cychwyn | Hyd 2013 |
| viii. | Rhoi mesurau arfaethedig ar waith i wella Adroddiadau Naratif ar gyfer y cwmnïau mwyaf, gan gynnwys trwy ddeddfwriaeth | Wedi cychwyn | Hyd 2013 |
| ix. | Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i adolygiad John Kay o farchnadoedd ecwiti'r DU a gwneud penderfyniadau tymor-hir | Gorff 2012 | Rhag 2012 |
| x. | Datblygu cynllun gweithredu gyda'r Swyddfa Gartref i ategu ymdrechion y byd busnes i gynyddu nifer y menywod ar Fyrddau cwmnïau, parhau i roi argymhellion yr Arglwydd Davies ar waith a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd gyda grŵp llywio'r Adolygiad | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |
| **5.5** | **Sefydlu Grŵp Data Cyhoeddus er mwyn sicrhau darbodaeth a gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy ei aelodau (y Swyddfa Dywydd, yr Arolwg Ordnans, y Gofrestrfa Dir a Thŷ'r Cwmnïau)** | | |
| i. | Sefydlwyd y Grŵp Data Cyhoeddus | Wedi cychwyn | Gorff 2012 |

# 5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

*Yn arwain: Bernadette Kelly, Marchnadoedd a Thwf Lleol*

| CAMAU | | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **5.6** | **Sefydlu Bwrdd Strategaeth Data i gynghori Gweinidogion ar y ffordd orau i fanteisio i'r eithaf ar werth y data, ac ymestyn mynediad agored a rhydd i ddata'r Grŵp Data Cyhoeddus (y Swyddfa Dywydd, yr Arolwg Ordnans, y Gofrestrfa Dir a Thŷ'r Cwmnïau)** | | | |
| | i. | Sefydlwyd y Bwrdd Strategaeth Data | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| **5.7** | **Cyflwyno diwygiadau i ymbweru defnyddwyr trwy dryloywder o ran data a hwylustod o ran adborth, a thrwy wella gwybodaeth a chyngor i gwsmeriaid** | | | |
| | i. | Cynhyrchu adroddiad ar gynnydd mewn perthynas ag ymbweru defnyddwyr gan ddisgrifio'r prif orchestion a cherrig milltir ar gyfer y flwyddyn nesaf, a datblygu'r sail o dystiolaeth ymhellach er mwyn sicrhau bod ffocws ar y mesurau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | | | | |
| **5.8** | **Cyflwyno mesurau amddiffyn mwy cadarn ar gyfer defnyddwyr** | | | |
| | i. | Rhoi diwygiadau ar waith o ran y dirwedd i ddefnyddwyr trwy drosglwyddo'r swyddogaethau cynghori, rhannu gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer defnyddwyr i gyrff defnyddwyr, a throsglwyddo swyddogaethau gorfodi pellach i Safonau Masnach | Wedi cychwyn | Meh 2013 |
| | ii. | Cyflwyno cynigion ar gyfer rhaglen gynhwysfawr o ddiwygiadau i'r gyfraith defnyddwyr, gan gynnwys Mesur Hawliau Defnyddwyr, er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb Hawliau Defnyddwyr, a symleiddio dros 12 darn o ddeddfwriaeth o ran defnyddwyr sy'n bodoli eisoes | Wedi cychwyn | Mai 2013 |
| | iii. | Datblygu a chyflwyno cynigion manwl ar gyfer system reoleiddio credyd gymesur a gwell, mewn cydweithrediad â HMT | Wedi cychwyn | Meh 2013 |

## 5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

*Yn arwain: Tera Allas Strategaeth, Dadansoddi a Rheoleiddio Gwell*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **5.9** | **Gweithio gyda HMT a phartneriaid eraill i roi 'Adolygiadau o Dwf' y Llywodraeth ar waith er mwyn cynnal twf cynaliadwy a chytbwys ar lefel ddomestig ac yn yr UE, trwy gydol oes y Senedd hon** | | |
| i. | Gweithio gyda HMT a phartneriaid eraill i roi 'Adolygiadau o Dwf' y Llywodraeth ar waith er mwyn cynnal twf cynaliadwy a chytbwys ar lefel ddomestig ac yn yr UE, trwy gydol oes y Senedd hon | Wedi cychwyn | Ebr 2015 |
| | | | |
| **5.10** | **Cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r ffordd y mae Adrannau Gwario'r Llywodraeth a chyrff y sector cyhoeddus yn rhyngweithio â'r sector preifat, ac asesu eu gallu i gyflawni polisïau i hyrwyddo twf. Bydd hyn yn cynnwys ymarfer meincnodi i gymharu sut y mae economïau cystadleuol yn gweithredu eu strategaethau diwydiannol** | | |
| i. | Cyhoeddi adolygiad annibynnol | Wedi cychwyn | Tach 2012 |
| | | | |
| **5.11** | **Rhoi diwedd ar y diwylliant o reoleiddio trwy 'flychau ticio', ac yn hytrach targedu arolygiadau ar sefydliadau risg uchel trwy gyd-reoleiddio a chodi safonau proffesiynol** | | |
| i. | Lansio cyfres o adolygiadau rheoleiddio cyson, gan archwilio a yw'r trefniadau gorfodi sy'n cael eu hystyried trwy'r adolygiadau yn briodol, yn gymesur, yn addas at y pwrpas ac yn seiliedig ar risg. Busnesau bychain ym maes gweithgynhyrchu bwyd; cemegau; a digwyddiadau ar gyfer gwirfoddolwyr fydd y tri cyntaf yn hyn o beth | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |
| **5.12** | **Rhoi cyfle i'r cyhoedd a byd busnes herio'r rheoliadau gwaethaf** | | |
| i. | Cydweithio â Swyddfa'r Cabinet i arwain yr Her Biwrocratiaeth sy'n golygu gweithio gyda holl adrannau'r Llywodraeth i leihau a diwygio'r stoc o reoliadau sydd ar y llyfr statud | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| ii. | Yn unol â'r Her Biwrocratiaeth, cyflwyno cynigion i leihau a diwygio'r stoc o offerynnau statudol a rheoliadau y mae'r Adran yn bennaf gyfrifol amdanynt | Wedi cychwyn | Maw 2013 |
| | | | |

## 5. Marchnadoedd – Creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr

*Yn arwain: Tera Allas Strategaeth, Dadansoddi a Rheoleiddio Gwell*

| CAMAU | | I gychwyn | I'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| **5.13** | **Sefydlu dull trwyadl o fynd i'r afael â rheoliadau'r UE ar bob cam o'r ffordd, o'r syniad gwreiddiol nes iddynt ddod i rym yn y DU, er mwyn lleihau'r baich diangen a sicrhau nad yw busnesau yn y DU o dan anfantais mewn perthynas â'u cystadleuwyr yn Ewrop** | | |
| | i. Monitro cynnydd Adrannau wrth roi diwedd ar eurblatio, gan gynnwys allgopïo, amseru pethau'n iawn, defnyddio cymalau adolygu, alinio rhwymedigaethau'r UE â pholisi domestig a defnyddio dewisiadau amgen yn hytrach na rheoleiddio | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | ii. Gweithio gyda sefydliadau'r UE i blannu gwreiddiau rheoleiddio doeth, gan gyfrannu at adroddiad y Comisiwn ar leihau'r baich cyffredinol ac eithrio microfusnesau. Mae hyn cynnwys meysydd posibl lle gellid eithrio microfusnesau a ffyrdd o ysgafnhau'r baich sy'n codi o'r Her Biwrocratiaeth | Wedi cychwyn | Rhag 2012 |
| | iii. Gweithio gyda'n partneriaid yn yr UE i bennu targed i leihau baich cyffredinol rheoliadau'r UE erbyn diwedd 2014 | Wedi cychwyn | Rhag 2014 |
| | | | |
| **5.14** | **Cwblhau adolygiad o God Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr er mwyn ystyried a oes angen adolygu'r Cod i wella tryloywder ac atebolrwydd rheoleiddwyr i'r byd busnes** | | |
| | i. Cwblhawyd yr adolygiad o God Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr | Wedi cychwyn | Tach 2012 |
| | | | |
| **5.15** | **Ymestyn y Cynllun Awdurdod Pennaf i wella cydlyniant, atebolrwydd a thryloywder rheoleiddio lleol** | | |
| | i. Estynnwyd y Cynllun Awdurdod Pennaf | Wedi cychwyn | Ebr 2014 |

# C) Gwariant yr adran

## Cynlluniau gwario a phrojectau mawr [1]

Mae'r Adran hon yn disgrifio cynlluniau gwariant yr Adran dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, fel y cytunwyd gyda'r Trysorlys, a'r costau disgwyliedig ar brojectau mawr yr Adran yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13.

| Cynlluniau gwariant (£bn) | 2011/12 (canlyniad) | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cyfyngiadau gwariant yr adran** [2] | **17.705** | **18.078** | **15.947** | **15.122** |
| Gwariant ar weinyddiaeth | 0.827 | 0.697 | 0.623 | 0.594 |
| Gwariant ar raglenni | 15.667 | 15.284 | 14.302 | 13.285 |
| Gwariant cyfalaf | 1.211 | 2.097 | 1.022 | 1.243 |

| Costau projectau mawr disgwyliedig (4 uchaf, £m) | 2012/13 | Cost Oes |
|---|---|---|
| Rhaglen Addysg Uwch | 370 | 4,600 |
| Rhaglen Gyfalaf Addysg Bellach | 272 | 1,934 |
| Banc Buddsoddi Gwyrdd | 799 | 1,857 |
| Benthyciadau Addysg Bellach | 11 | 578 |
| **Cyfanswm (pob project mawr)** | **1,618** | **9,767** |

### Diffiniadau:

*Gwariant ar weinyddiaeth:* costau gweinyddol y llywodraeth ganolog i gyd ac eithrio costau darparu gwasanaethau'r rheng flaen yn uniongyrchol


*Gwariant ar raglenni:* gwariant ar weithgareddau, nwyddau a gwasanaethau, fel cyflogau a buddion (ac eithrio gwariant ar weinyddiaeth yn ôl y diffiniad uchod)

*Gwariant cyfalaf:* gwariant ar asedau o werth parhaol, fel adeiladau ac offer

[1] Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant adrannol sy'n cael ei Reoli'n Flynyddol. Crynhowyd y rhifau felly hwyrach na fyddant yn adio i fyny
[2] Nid yw hyn yn cynnwys dibrisiant

# Dyraniad cyllideb 2012-13

Mae'r siart hon yn rhoi manylion pellach am sut y caiff setliad yr Adran ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 ei ddyrannu ar draws ein rhaglenni a'n gweithgareddau allweddol .



# Effeithlonrwydd yr Adran

Nod y data hwn yn galluogi'r cyhoedd i gymharu gweithgareddau'r Adran â sefydliadau eraill trwy ddisgrifio cost meysydd gweithredol cyffredin, a disgrifio cynlluniau'r Adran i sicrhau effeithlonrwydd yn 2012/13.

| Categori Gwariant | Data Diweddaraf (QDS[3] 3 2011) | Camau i wella effeithlonrwydd gweithredol yn 2012/13 |
|---|---|---|
| **AD**<br>**Cyfanswm FTE ar gyfer teulu BIS** (ar 31 Rhag 2011) | 29,830 o bobl | • Gwella cadernid a chywirdeb y data AD trwy sicrwydd lefel uwch ar setiau data, a thrwy lanhau'n drylwyr y data y mae'r Adran yn ei gadw ar hyn o bryd;<br>• Archwilio dewisiadau pellach ar gyfer gwella effeithlonrwydd, harneisio darbodaeth o ran maint a rhannu strategaethau lleihau rhwng sefydliadau partner. |
| **Ystadau**<br>**Cyfanswm yr ystâd o ran swyddfeydd**<br>(ar 31 Rhag 2011) | 278,274 metr sgwâr | • Cael gwared ar Dŷ Kingsgate, Llundain SW1 ym mis Mawrth 2012 gan arbed £9.9m o 2012/2013 ymlaen;<br>• Bwrw ymlaen â'r cynllun i leihau ystâd Grŵp BIS o 192 prydles i 46 prydles ar sail cymhareb desg 8:10 ac 8 metr sgwâr y pen, gan weithredu o gyfres o ganolbwyntiau Grŵp BIS. |
| **Caffael**<br>**Cyfanswm y Gwariant ar Gaffael**<br>(Q3 2011-12) | £200.92m | • Pennwyd targed o £41.4m o ran arbedion caffael ar draws teulu BIS yn 2012-13;<br>• Sicrhau bod y gofynion o ran rheoli gwariant ar ymgynghorwyr yn dwyn arbedion;<br>• Chwilio am ffyrdd o sicrhau mwy o ddarbodaeth o ran y gwariant ar gyfathrebu trwy adnabod a hybu cyfleoedd i gydweithio ar draws teulu BIS. |
| **Projectau Mawr**<br>**Cost oes holl Brojectau Mawr BIS** | £9,766.87m | • Rhoi Cynllun Gweithredu Gallu a Chymhwyster PPM BIS ar waith er mwyn sicrhau bod gan y carfanau sy'n rheoli Projectau mawr y sgiliau angenrheidiol i'w cyflawni'n llwyddiannus;<br>• Codi ansawdd, a gwella'r ffordd y mae arferion da yn cael eu rhannu, trwy Rwydwaith Rheolwyr Rhaglenni GMPP. |
| **Technoleg Gwybodaeth**<br>**Cyfanswm cost TG 3ydd parti** (Q3 2011-12) | £25.26m | • Mabwysiadu contractau fframwaith ar gyfer gwasanaethau teleffoneg a data ar draws y llywodraeth;<br>• Disodli gwasanaethau argraffwyr â thechnolegau newydd, gan leihau'r costau argraffu;<br>• Ail-drafod telerau'r contract TGCh, gan gwtogi £8.7m ar y costau yn 2012-13 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol**<br>(Q3 2011-12) | £31.04m | • Rhoi cam cyntaf y rhaglen rhannu gwasanaethau ar waith – gan gynnwys y swyddogaethau cyllid ac AD – ar gyfer yr adran graidd a 9 sefydliad partner;<br>• Mabwysiadu Siart Cyfrifon Cyffredinol ar gyfer y criw cyntaf o sefydliadau partner; a chyflawni gwaith parhaus i ddatblygu gwelliannau i'r prosesau ariannol ar gyfer y dyfodol. |

[3] Y Crynodeb Chwarterol o Ddata

| Categori Gwariant | Data Diweddaraf (QDS[3] 2011) | Camau i wella effeithlonrwydd gweithredol yn 2012/13 |
|---|---|---|
| **Twyll, Gwallau a Dyledion** (Q3 2011-12) | £4.55m o dwyll cydnabyddedig; £0 o wallau cydnabyddedig; cyfanswm o  £51.04m o ddyledion | • Gweithio gyda sefydliadau partner i amddiffyn polisïau newydd rhag twyll a rhannu arferion da er mwyn gwella'r gwaith o adnabod taliadau trwy dwyll a thaliadau gwallus i gyflenwyr;<br>• Gwella'r gwaith o adrodd ar gamgymeriadau trwy adeiladu'r peth i'r contract newydd ar gyfer rhannu gwasanaethau. |
| **Gwariant ar Gaffael BBaCh a Sefydliadau Gwirfoddol** (Q3 2011-12) | £35.00m BBaCh;<br>£0.11m VCS | • Gwneud gwasanaethau caffael yr Adran yn fwy hygyrch i BBaCH a VCS, a hynny trwy brosesau caffael agored a defnyddio'r cyfleuster Canfod Contractau. Y nod yw dyfarnu 25% o'r contractau i BBaCH. |

# D) Tryloywder

## Dangosyddion a data allweddol arall

Mae'r Adran wedi mabwysiadu'r dangosyddion mewnbwn ac effaith canlynol er mwyn helpu'r cyhoedd i asesu effeithiau ein polisïau a'n diwygiadau ar gost ac effaith gwasanaethau cyhoeddus. Caiff y dangosyddion hyn, a'r data arall a bennir yma ac yn ein Strategaeth Data Agored, eu cyhoeddi ar-lein yn gyson.

| Disgrifiad | Math o ddata |
|---|---|
| **Gwybodaeth ac Arloesi – cynorthwyo Prifysgolion, gwyddoniaeth ac ymchwil i feithrin economi cadarn ac arloesol** | |
| Perfformiad o ran gwariant ar Ymchwil a Datblygiad mewn Addysg Uwch | Dangosydd mewnbwn |
| Cyllid fesul myfyriwr mewn Addysg Uwch | Dangosydd mewnbwn |
| Cyfran y DU o bapurau sy'n cael eu dyfynnu'n helaeth | Dangosydd effaith |
| Cyfran y cwmnïau sy'n arloesi'n ymarferol | Dangosydd effaith |
| Y bwlch rhwng disgyblion 15 oed sydd yn, ac sydd ddim yn cael prydau ysgol am ddim, sy'n mynd ymlaen i addysg uwch (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |
| Y bwlch rhwng myfyrwyr ysgolion y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol sy'n mynd i'r 33% o sefydliadau addysg uwch mwyaf detholus (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |
| Y bwlch rhwng graddedigion ifanc o gefndiroedd proffesiynol, a'r graddedigion ifanc o gefndiroedd nad ydynt yn broffesiynol, sy'n mynd ymlaen i "swyddi i raddedigion" ymhen 6 mis ar ôl graddio (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |
| | |
| **Sgiliau - meithrin sylfaen sgiliau sy'n gallu cystadlu ar lwyfan ryngwladol a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd sy'n galluogi unigolion i wireddu eu potensial** | |
| Cyllid cyfartalog addysg bellach i oedolion sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth, fesul cwrs | Dangosydd mewnbwn |
| Nifer y dysgwyr sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth sy'n cymryd rhan mewn Addysg Bellach | Dangosydd mewnbwn |
| Cymhariaeth ryngwladol o lefelau cymwysterau'r boblogaeth o oedran gwaith yn y DU | Dangosydd effaith |
| Cyfran y bobl ifanc 18-24 oed sy'n cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn neu ran-amser, gan seilio'r mesuriad o'r bwlch ar gyfer addysg amser llawn yn ôl cefndir cymdeithasol ar grŵp galwedigaethol y tad (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |
| Cyfanswm cyflawniadau llawn Lefel 2 neu 3 o ran Addysg Bellach ar gyfer pobl ag oedran academaidd o 19 oed neu'n hŷn (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |
| Hygyrchedd proffesiynau - y % o bobl 16-65 oed mewn swyddi cyflogedig sydd mewn swyddi rheoli neu broffesiynol yn ôl cefndir cymdeithasol, ar sail grŵp galwedigaethol y tad (Symudedd Cymdeithasol) | Dangosydd effaith |

| Disgrifiad | Math o ddata |
|---|---|
| | |
| **Mentergarwch – Rhoi hwb i fentergarwch gan droi'r degawd hwn yn ddegawd y mentrwyr; taro cydbwysedd newydd yn yr economi ar draws sectorau ac ar draws y rhanbarthau** | |
| Cynigion a wnaed o'r Gronfa Twf Rhanbarthol | Dangosydd mewnbwn |
| Gwerth y cronfeydd Gwarantu Cyllid Mentergarwch sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau | Dangosydd mewnbwn |
| Nifer y contractau ar gyfer y Gronfa Twf Rhanbarthol sy'n cael eu llofnodi | Dangosydd effaith |
| Y newid yng Nghyfran y Boblogaeth 16-64 oed sydd yng Nghyflogaeth y Sector Preifat a'r bobl sydd dros 64 oed sydd yn y farchnad lafur | Dangosydd effaith |
| Cyfradd y gweithgarwch Mentro ar gyfnod cynnar | Dangosydd effaith |
| Hwylustod gwneud busnes yn y DU, safle'r DU ar Adroddiad Gwneud Busnes Banc y Byd | Dangosydd effaith |
| Bodloni'r ymrwymiad i gynnal mynediad teg i'r rhwydwaith o Swyddfeydd Post | Dangosydd effaith |
| | |
| **Masnach a buddsoddi – sbarduno allforio a mewnfuddsoddi** | |
| Cost gyfartalog fesul Uned  pob Busnes yn y DU a gafodd gymorth i wella ei berfformiad trwy fewnoli | Dangosydd mewnbwn |
| Cost gyfartalog fesul Uned pob Project Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor a gafodd ei ddenu i'r DU â chymorth UKTI | Dangosydd mewnbwn |
| Nifer y Busnesau yn y DU a gafodd gymorth i wella eu perfformiad trwy fewnoli | Dangosydd effaith |
| Nifer y projectau Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor a gafodd eu denu i'r DU â chymorth UKTI | Dangosydd effaith |
| Bod yn Agored i fasnach: Allforion plws mewnforion fel cyfran o'r GAP, wedi ei fesur yn erbyn y prif gystadleuwyr | Dangosydd effaith |
| | |
| **Marchnadoedd – creu amgylchedd positif ar gyfer busnes; ac amddiffyn ac ymbweru defnyddwyr** | |
| Y newid yn y baich o ran rheoliadau domestig net y mae'r Llywodraeth yn ei osod ar fusnesau | Dangosydd effaith |
| Y newid yn y baich o ran rheoliadau cyflogaeth domestig net y mae'r Llywodraeth yn ei osod ar fusnesau | Dangosydd effaith |
| Gwerth manteision y drefn cystadlu i ddefnyddwyr | Dangosydd effaith |

## Data agored

Mae’r dudalen hon yn rhoi crynodeb o ymrwymiad BIS i ddata agored. Bydd manylion pellach, gan gynnwys pa setiau data a gaiff eu cyhoeddi pryd, i’w cael yn Strategaeth Data Agored BIS, a gaiff ei chyhoeddi'r haf yma.

Twf yw blaenoriaeth yr Adran ac mae gan Ddata Agored ran bwysig i’w chwarae yn hyn o beth. Mae Data Agored yn cyfrannu’n uniongyrchol trwy’r cyfleoedd economaidd y mae’n eu creu a thrwy ei rôl wrth gyflawni’r diwygiadau rydym ni’n eu cyflwyno. Mae BIS wedi ymrwymo i gynyddu effaith economaidd gwybodaeth bresennol y sector cyhoeddus, ac i ryddhau gwybodaeth newydd y sector cyhoeddus i ehangu’r farchnad ar gyfer y wybodaeth hon. Am fod BIS yn gyfrifol am nifer o ddalwyr data sy’n gronfeydd masnachu, byddwn yn sicrhau fforddiadwyedd a gwerth i’r trethdalwyr wrth sicrhau bod mwy o ddata ar gael i’w ailddefnyddio’n rhad ac am ddim.